LLANFYNYDD
Sioe Amaethyddol Llanfynydd

Pleser yw cyhoeddi y bydd Sioe Amaethyddol Llanfynydd yn cael ei chynnal eleni ar Ddydd Sadwrn, 13 Awst. Ewch ati i baratoi eitemau ar gyfer cystadlaethau agored yr adran Gwaith Llaw:

- Yr Her Trawnewid (*The Transformation Challenge*) – trawsnewid dilledyn. Rhaid arddangos llun o'r dilledyn gwreiddiol.
- Het neu sgarff wedi ei wau neu ei grosio â llaw.
- Eitem o ffeltio.
- Llun wedi ei wneud o fotymau.
- 'Jwg hufen' – jwg hardd/ddiddorol - gellir fod wedi ei phrynu.
- Bag wedi ei wnïo gyda'r peiriant gwnio.
- Llaw ysgrifennu gwahoddiad yn y Gymraeg neu yn Saesneg.
- Eitem wedi ei wneud o fetal, 'Ar gyfer yr ardd'.
- Eitem wedi ei wneud o bren,'Ar gyfer yr ardd'.
- Ffon gerdded. .
- Brawddeg ar yr enw '*Tan y Berllan'* . Gall y frawddeg fod yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Wedi dwy flynedd o seibiant, edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn ôl i'r sioe. Os am wybodaeth y mae croeso ichi gysylltu â Annwen Williams ar (01267) 290643.